**Lee Waters AS/MS**
**Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Deputy Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LW/00151/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

12 Mai 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Chwefror ynglŷn â Deiseb P-05-935: Gwahardd Parcio ar Balmentydd – Addewid Palmant.

Ar hyn o bryd dim ond cerbydau nwyddau mwy a waherddir rhag parcio ar droedffyrdd a phalmentydd yng Nghymru. Felly, penderfynwyd sefydlu'r Tasglu i edrych ar yr hyn y gellid ei wneud i wahardd pob cerbyd rhag gwneud hynny, gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r Grŵp wedi ystyried dau ddull amgen er mwyn galluogi camau gorfodi i atal parcio ar balmentydd (troedffyrdd):

- Deddfwriaeth sylfaenol, sy'n creu trosedd newydd o barcio ar balmentydd, yn debyg i'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar yn yr Alban, a'r gwaharddiad hirsefydlog yn Llundain;
- Is-ddeddfwriaeth, drwy ychwanegu'r drosedd o beri rhwystr ar y briffordd yn ddiangen at y rhestrau o dramgwyddau y gallai Swyddogion Gorfodi Sifil awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi yn eu herbyn o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Bydd y Tasglu yn argymell y dull gorau ac yn adrodd ar weddill ei ganfyddiadau yr haf hwn. Mae'r grŵp yn cynnwys nifer o randdeiliaid sydd â phrofiad gwerthfawr yn y maes hwn. Mae rhestr gynhwysfawr ar y dudalen nesaf.

Ar hyn o bryd dim ond yr heddlu sydd â'r pwerau i ymdrin â materion megis peri rhwystr a pharcio mewn modd peryglus. Os oes gan eich deisebwyr unrhyw bryderon ynghylch cerbydau'n parcio mewn modd sy'n peri rhwystr ar ffordd gyhoeddus, cânt adrodd am y mater i'r heddlu drwy ffonio 101, y rhif ar gyfer yr heddlu os nad oes argyfwng.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadeirydd – Phil Jones, Phil Jones Associates

Sefydliadau sy'n Aelodau:

- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Parcio Prydain
- Living Streets
- Yr Heddlu
- Cŵn Tywys
- Conffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr y DU
- Cymdeithas Cludiant Ffyrdd
- Prifysgol Gorllewin Lloegr (Bryste)
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cyd-bwyllgor PATROL (Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain)
- Cymdeithas Cludo Nwyddau
- Gwasanaethau Tan ac Achub
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- SUSTRANS
- Anabledd Cymru
- Y Tribiwnlys Cosbau Traffig ar gyfer Cymru a Lloegr
- Cynrychiolwyr Rhanbarthol o Bedwar Awdurdod Lleol